Cyfeirnod(au) y Papur

**6957/01**

# Edexcel GCE

## Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Gymhwysol

Uned 7: Defnyddio Meddalwedd Cronfa Ddata

Mai 2007

Senario

Agorwch y deunydd hwn yn syth. Dylid ei ddosbarthu i ymgeiswyr nid llai na thair wythnos waith cyn yr arholiad.

Bydd y disgrifiad ar y dudalen nesaf yn cael ei ddefnyddio fel y senario ar gyfer y fanyleb uchod, a chaiff ei ailddosbarthu gyda'r papur arholiad. Dylid defnyddio'r senario hwn at ddibenion paratoi ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad. Ni ddylid mynd â'r deunydd hwn i mewn i'r arholiad.

Mae rhagor o fanylion yn yr Instructions for the Conduct of Examinations, sydd ar gael ar wefan Edexcel ar gyfer y cymhwyster a'r pwnc hwn.

**Ni fydd Edexcel yn derbyn unrhyw gais am ystyriaeth arbennig petai'r ymgeiswyr yn cael y senario anghywir ar gyfer yr arholiad maent yn ei sefyll.**

Rhif Log yr Argraffwr
N31103A

N 3 1 1 0 3 A

W850/S6957/57570 2/

*Trowch y dudalen*

Gellir cyhoeddi'r cyhoeddiad hwn yn unig yn unol â pholisi hawlfraint Edexcel Limited. ©2007 Edexcel Limited.

edexcel
advancing learning, changing lives

## Senario

### System gyfredol

Cadwyn lwyddiannus o siopau sy'n gwerthu dewis (*range*) eang o ddillad denim yw Denim Daze. Gall y siopau werthu dewis Denim Daze yn unig, sy'n cynnwys jîns i ddynion a menywod, a sgertiau, crysau, siacedi, gwasgodau, bagiau a hetiau denim. Mae'r dewis wedi'i anelu at bobl ifanc rhwng 14 a 29 oed.

Caiff y cyflenwadau yn y siopau eu cynnal gan system archebu â llaw ar hyn o bryd. Mae'r system yn hen ffasiwn iawn ac wedi achosi nifer o broblemau gan arwain at lawer o siopau'n rhedeg allan o nwyddau poblogaidd.

Caiff y nwyddau eu storio a'u dosbarthu i'r siopau o dri warws sydd wedi'u lleoli yn Romford (rhanbarth de Lloegr), Wolverhampton (rhanbarth canolbarth Lloegr) a Leeds (rhanbarth gogledd Lloegr). Pan fydd y nifer mewn stoc o eitem benodol yn syrthio islaw lefel benodol, caiff archeb ei gwneud yn uniongyrchol i'r gweithgynhyrchwr neu'r cyflenwr. Dyletswydd y Rheolwr Warws perthnasol yw gosod y lefel hon a chydnabod pryd bydd stociau eitem benodol yn mynd yn isel. Mae gan y rhan fwyaf o siopau le storio cyfyng felly ni allant gadw symiau mawr o stoc ac mae disgwyl i reolwyr y siopau gadw gwerth eu stoc i isafswm. Caiff archebion eu danfon o'r warws bob wythnos. Mae'n bwysig bod y lefel gywir o stoc yr holl nwyddau yn cael ei chynnal er mwyn cwrdd ag anghenion y cwsmeriaid.

### Cynnal stoc yn y siopau

Ar hyn o bryd, daw archebion i'r warws o'r siopau unrhyw bryd yn ystod y diwrnod gwaith trwy'r e-bost. Bydd yr e-bost yn cynnwys yr eitem a archebir, y siop sy'n gwneud yr archeb a nifer yr eitem benodol y mae ei hangen. Caiff yr e-bost ei argraffu gan Glerc Gweinyddol sy'n ei roi ar waelod pentwr o archebion tebyg mewn basged wedi'i labelu 'Archebion sy'n Aros' yn y warws.

Bydd Gweithredwr Warws yn casglu'r archeb uchaf oddi ar y pentwr ac yn ceisio llenwi'r archeb. Bydd ef neu hi yn mynd i'r rhan berthnasol o'r warws. Os oes digon o'r eitem yn y warws, bydd y Gweithredwr Warws yn mynd â'r eitemau o'r silffoedd ac yn eu rhoi nhw mewn cynhwysydd metel mawr, a adwaenir fel cawell. Caiff pob cawell ei neilltuo i siop benodol. Yna caiff yr allbrint o'r e-bost ei roi mewn basged arall wedi'i labelu 'Archebion wedi'u Prosesu'. Caiff y rhain eu casglu gan yr Adran Gyllid at ddibenion cyfrifo.

Os nad oes digon o eitem benodol i lenwi'r archeb, bydd y Gweithredwr Warws yn llenwi ffurflen a elwir yn ffurflen 'Allan o Stoc' yn rhoi manylion pa ran o'r archeb sydd heb ei diwallu. Yna caiff y ffurflen hon ei rhoi mewn rhan arbennig yn y cawell a chaiff yr e-bost gwreiddiol ei roi mewn basged arall wedi'i labelu 'I'w Danfon'. Bob tro y caiff stoc newydd ei ddanfon i'r warws, bydd y Clerc Gweinyddol yn gwirio'r fasged 'I'w Danfon' am eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y danfoniad. Os daw o hyd i eitemau felly, cânt eu gosod ar dop y fasged 'Archebion sy'n Aros' a'u prosesu fel petaen nhw newydd ddod i mewn. Caiff stoc ar gyfer y siopau eu casglu yn y cawell i'w dosbarthu unwaith yr wythnos. Bob dydd Gwener, caiff y cewyll eu llwytho i'r loriau a'u danfon i'r siopau. Bob hyn a hyn, mae Rheolwr y Warws yn gwirio'r stoc a'r pentwr 'I'w Danfon' ac yn gwneud yr archebion i'r cyflenwyr am stoc newydd i gymryd ei le.

### Newidiadau arfaethedig i'r system

Mae'r system yn hen ffasiwn iawn ac mae angen ei gwneud yn gyfrifiadurol. Teimla staff y warws nad oes unrhyw beth o'i le â'r ffordd y caiff pethau eu gwneud yn ei hanfod. Mae'r rheolwyr wedi penderfynu gwneud y system yn gyfrifiadurol ac wedi prynu'r offer. Bydd system gronfa ddata ym

mhob warws a fydd yn gofalu am yr archebu stoc a'r system ddosbarthu. Bydd gan bob siop gyfrifiadur sydd wedi'i gysylltu â'r warws agosaf a byddant yn gallu rhoi archebion i mewn i'r system gronfa ddata yn uniongyrchol. Caiff y dyddiad y gwneir yr archeb ei storio'n awtomatig. Rhagwelir y bydd tri chyflwr yr archeb (Archeb sy'n Aros, Archeb wedi'i Phrosesu ac I'w Danfon) yn parhau. Bydd cyfrifiadur yn y warws a fydd yn dangos yr archeb nesaf yn y cyflwr 'I'w Danfon'. Os nad oes digon o stoc yn y warws dylai hyn gael ei ddangos ar y ffurflen i arbed y Gweithredwr Warws rhag chwilio am stoc nad yw ar gael. Yn yr achos hwn, bydd y Gweithredwr Warws yn argraffu ffurflen 'Allan o Stoc' i'w rhoi yn y cawell. Os bydd stoc ar gael, bydd y Gweithredwr Warws yn prosesu'r archeb fel arfer. Bydd angen i'r Gweithredwr Warws allu dweud wrth y system fod yr archeb wedi'i diwallu a bod yr eitemau yn y cawell perthnasol. Ar ôl i bob archeb gael ei phrosesu, bydd yr un nesaf ar y rhestr yn cael ei dangos. Os nad oes mwy o archebion, bydd y sgrin yn aros yn wag hyd nes i'r archeb nesaf ddod i mewn. Bydd yr archeb hon yn cael ei dangos yn awtomatig.

Gofynnwyd i chi lunio system newydd sy'n ystyried y newidiadau hyn. Y ganolfan ddosbarthu gyntaf i ddefnyddio'r system fydd Leeds a bydd hon yn cael ei threialu cyn i'r canolfannau dosbarthu eraill gael eu hychwanegu at y system.

**TUDALEN WAG**